# Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales

## Cwmni Cyfyngedig drwy Warant

## Rhif Cofrestru'r Cwmni 4635113

## Datganiadau Ariannol
## Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019

# Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales
# Cwmni Cyfyngedig drwy Warant

## Datganiadau Ariannol
## Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019

**Cynnwys**

**Tudalen:**


| | |
|---|---|
| **1-8.** | **Adroddiad y Cyfarwyddwyr** |
| **9-10.** | **Adroddiad ar Daliadau** |
| **11-13.** | **Adroddiad yr Archwilydd** |
| **14.** | **Datganiad o Incwm Cynhwysfawr** |
| **15.** | **Mantolen** |
| **16.** | **Datganiad Llifau Arian** |
| **17 – 30.** | **Nodiadau a Pholisïau Cyfrifo** |

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno ynghlwm eu hadroddiad blynyddol, ynghyd â datganiadau ariannol archwiliedig y cwmni, ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019. Ar gyfer naratif yr adroddiad hwn, defnyddir 'HCC' yn lle Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales er mwyn bod yn gryno.

**1. Canlyniadau**

Y canlyniad ar gyfer y flwyddyn oedd gwarged o £79,853 (2018: £144,711)

**2. Prif Weithgaredd ac Adolygiad o'r Busnes**

Prif weithgaredd y cwmni yn ystod y flwyddyn oedd datblygu a hybu cig coch Cymru. Mae HCC wedi gweithio tuag at y targedau a geir yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-19. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu cynlluniau cyflawni HCC i gyfrannu at amcanion y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Diwydiant Cig Coch. Nod y Cynllun Gweithredu yw cyflwyno diwydiant cig coch Cymru sy'n broffidiol, yn gynaliadwy, yn effeithlon ac yn arloesol, sy'n ymateb yn gystadleuol i dueddiadau'r farchnad fyd-eang sy'n newid yn barhaus, ac sydd o fudd i gynhyrchwyr, proseswyr a defnyddwyr. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cynllun Gweithredu Strategol ei adolygu a'i ddisodli gan Weledigaeth 2025.

Mae'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn i'w weld yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar dudalen 14 ac mae sefyllfa'r cwmni ar ddiwedd y flwyddyn i'w weld yn y Fantolen ar dudalen 15.

Dyma'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y cwmni:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Incwm o'r ardoll | 3,429,837 | 3,484,082 |
| Incwm o grantiau | 700,992 | 599,881 |
| Gwarged gweithredol | 80,134 | 144,748 |

Syrthiodd yr incwm o'r ardoll gan bob rhywogaeth 1.6% o'i gymharu â 2018.
Cynyddodd yr incwm o grantiau yn sgil y cyllid blwyddyn lawn gyntaf dan y Gronfa Gwella Allforion Llywodraeth Cymru, a dechrau'r gweithgaredd dan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru.
Digwyddodd y gostyngiad mewn gwarged gweithredol oherwydd cynnydd yng nghanran lefel gwariant yr ardoll.

Cafodd gwerth marchnad adeilad y swyddfa ei brisio ar 31 Mawrth 2018 yn £450,000 ac adlewyrchwyd hynny yn y fantolen.
Nid yw Bwrdd HCC yn bwriadu symud o'r adeilad yn y dyfodol agos. Yn unol â pholisi cyfrifon y cwmni, caiff yr adeilad ei brisio eto ym mis Mawrth 2021.

**2. Prif Weithgaredd ac Adolygiad o'r Busnes (parhad)**

**Polisi Amgylcheddol**
Mae Hybu Cig Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ei weithgareddau'n cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr Amgylchedd. Dyma bwyntiau allweddol o'i strategaeth ar gyfer gwneud hyn:

- Lleihau gwastraff drwy werthuso gweithrediadau a sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl;
- Lleihau allyriadau gwenwynig drwy'r cerbydau a'r ffynhonnell ar gyfer ei ofynion pŵer a ddewisa ac a ddefnyddia;
- Hyrwyddo ailgylchu;
- Cyrchu a hybu dewis o gynnyrch sy'n lleihau effaith y prosesau cynhyrchu a dosbarthu ar yr amgylchedd;
- Bodloni neu ragori ar yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i'r Cwmni.

Mae HCC yn monitro effeithiolrwydd ei bolisi drwy gyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd i raglen lleihau carbon Llywodraeth Cymru.

**Gweithwyr**
Mae HCC yn credu bod pob gweithiwr (neu ddarpar weithiwr) yn gallu cyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at nodau'r sefydliad ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio doniau ac adnoddau pawb i'r eithaf. O'r herwydd, ni fydd neb yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas na phartneriaeth sifil, beichiogrwydd na mamolaeth, hil, crefydd na chred, rhyw neu dueddfryd rhywiol.

Ar ddiwedd y flwyddyn, dyma'r dadansoddiad o'r rhywiau ymysg y staff amser llawn:

| | Benyw | | Gwryw | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019 | 2018 | 2019 | 2018 |
| Staff | 23 | 17 | 6 | 7 |

Dyma'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr, sydd oll yn anweithredol:

| | Benyw | | Gwryw | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019 | 2018 | 2019 | 2018 |
| Cyfarwyddwyr | 5 | 5 | 5 | 6 |

Ni ddarperir dim gwybodaeth am faterion cymdeithasol a chymunedol.

## 3. Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Amlinellir fframwaith risgiau'r cwmni ar dudalen 6. Mae hwn yn sicrhau fod systemau mewnol HCC yn darganfod, yn monitro ac yn ymateb i risgiau.

Y risg fwyaf i'r busnes yw lefel yr incwm o'r ardoll. Oherwydd natur y system ardoll, nid oes gan HCC ddim rheolaeth dros nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru nac yn lle y caiff anifeiliaid a fegir yng Nghymru eu lladd. Hefyd, ni wyddys beth yw'r incwm nes bod y proseswyr yn cyflwyno'r manylion. Oherwydd hyn, mae HCC wedi ceisio ffordd decach o ddosbarthu'r incwm o'r ardoll ledled gwledydd Prydain, gan adlewyrchu nifer yr anifeiliaid magu yn y gwahanol wledydd yn hytrach nag yn ôl lleoliad daearyddol y lladd-dai. Bydd hyn yn arwain at gyflawni amcan risg ariannol HCC o leihau'r incwm a gollir i ddim. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Bil Amaethyddiaeth yn mynd drwy Senedd y DU. Bydd hwn yn rhoi pwerau i'r Gweinidogion i sefydlu cynllun sy'n caniatáu i'r ardoll gael ei dosbarthu rhwng cyrff ardollau. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn sy'n diweddu Mawrth 2020, mae cyrff ardollau Prydain Fawr wedi cytuno ar ateb dros dro, sef cronfa wedi'i neilltuo a fyddai'n cael ei defnyddio er budd holl gyrff ardollau Prydain Fawr.

## 4. Datblygiadau'r Dyfodol

Bydd y cwmni'n dal i ddatblygu a hyrwyddo cig coch Cymru drwy ei incwm o'r ardoll ac unrhyw incwm sydd ar gael o grantiau.

## 5. Cyfarwyddwyr a'u Buddiannau

Dyma Gyfarwyddwyr y cwmni drwy gydol y cyfnod a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol:

**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| K Roberts | Cyfrifydd; Cyfarwyddwr Verley Consulting Limited; Cadeirydd Cymdeithas y Darparwyr Llafur |

**Cyfarwyddwyr**

| | |
|---|---|
| G W Davies | Prif Weithredwr, Wynnstay Group Plc; Cyfarwyddwr Banbury Farm and General Supplies Limited, Bibby Agriculture Limited, Grainlink Limited, Glasson Grain Limited, Glasson Group (Lancaster) Limited, Shropshire Grain Limited, Stanton Farm Supplies Limited, Welsh Food Producers Limited, Woodheads Seeds Limited, Wrekin Grain Limited, Wynnstay Group PLC, Wynnstay (Agriculture Supplies) Limited, Wyro Developments Limited, Youngs Animal Feeds Limited |
| D D H Davies | Ffermwr; Cyfarwyddwr Llandre Limited ANTS (Against Nantyrast Turbines) Limited, NFSCO CIC; Aelod o Fwrdd Da Byw NFU Cymru, Bwrdd Da Byw Cenedlaethol yr NFU, Bwrdd Cig Eidion yr NFU; Is-gadeirydd NFU Sir Gaerfyrddin |
| J T Davies | Ffermwr; Cyfarwyddwr Cwmbetws Limited, Cymdeithas y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cyfyngedig |
| R L J Madeley Davies | Ymgynghorydd Amaethyddol |

**5. Cyfarwyddwyr a'u Buddiannau (parhad)**

| | |
|---|---|
| I L Dunsford (ymddiswyddodd 30 Maw 2019) | Ffermwr; Cyfarwyddwr Charcutier Limited Cellular Agriculture Limited, Slow Food UK Trust Limited, Slow Food CW Limited; |
| H S G Howells | Ymgynghorydd; Ffermwr; Cyfarwyddwr Hwylus Cyfyngedig; |
| B Jones | Ffermwr; Cyfarwyddwr Barrie Jones & Son Properties Limited |
| C M Smith | Ymgynghorydd y Sector Cig Coch; Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio |
| C Williams | Ffermwr |
| O B Williams | Ymgynghorydd T G |

**6. Cyfalaf Cyfranddaliadau**

Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Cyfyngir atebolrwydd yr aelod i £100.

**7. Archwilwyr**

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd y cwmni yn unol â pharagraff 18(1) o atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**8. Datganiad Llywodraethu**

**Fframwaith Llywodraethu**

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am drefn lywodraethu gorfforaethol y cwmni ac maent wedi mabwysiadu'r arferion a bennir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, lle bo hyn yn berthnasol ac yn ymarferol.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion HCC yn ogystal ag yn diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau sefydliadol yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru".

Cyllidir HCC gan incwm grant, gwerthiannau drwy anfonebau a'r ardoll. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu ardoll dan Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010. Caiff y swyddogaethau dan y Mesur eu dirprwyo i HCC drwy gytundeb dirprwyo.

*Bwrdd y Cyfarwyddwyr*

Mae gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr nifer o swyddogaethau pwysig i reoli risg, gan gynnwys gosod y cywair a dylanwadu ar ddiwylliant rheoli risg oddi mewn i HCC a phennu faint o risg sy'n dderbyniol mewn meysydd gweithgaredd penodol. Gwna hyn drwy gyfrwng ei bolisi a'i ddull gweithredu cyffredinol.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o arferion Llwgrwobrwyo a Llygredd ac mae wedi mabwysiadu polisi i'w hatal.

*Pwyllgor Archwilio a Risg HCC*

Caiff cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ei ddiffinio i gynnwys ystyried gweithgaredd arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol. Dyma gyfansoddiad y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019:- G Davies (Cadeirydd); J Davies; C Smith; O Williams

*Pwyllgor Taliadau HCC*

Mae Pwyllgor Taliadau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn argymell tâl y Prif Weithredwr.



## 8. Datganiad Llywodraethu (parhad)

### Adolygu effeithiolrwydd

Mae HCC wedi cynnal ei adolygiad ei hun o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg. Hysbyswyd Bwrdd y Cyfarwyddwyr o oblygiadau'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae systemau'r cwmni'n cael eu hadolygu'n barhaus.

Wrth adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol HCC mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi gwneud y gweithgareddau allweddol canlynol:

- *Gwneud Adroddiadau Ariannol*
  Cafwyd ddealltwriaeth o'r meysydd risgiau ariannol mwyaf ar hyn o bryd a sut mae'r rheolwyr yn ymdrin â nhw'n effeithiol.
- *Datganiadau Ariannol Blynyddol*
  Adolygwyd y datganiadau ariannol blynyddol gan benderfynu a oeddent yn gyflawn ac yn gyson â'r wybodaeth sy'n hysbys i aelodau'r pwyllgor; aseswyd a yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r egwyddorion cyfrifyddu priodol; cyfarfu â'r rheolwyr a'r archwilwyr allanol i adolygu'r datganiadau ariannol a chanlyniadau'r archwiliad.
- *Archwilio mewnol*
  Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau'r archwilwyr mewnol ar y meysydd y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod y flwyddyn, sef y Gyflogres; Rheoli Incwm a'r Trysorlys; rheoli risg a Llywodraethu. Rhoddodd yr archwilwyr mewnol sicrhad o sylwedd, eu barn ffafriol, ar y tri maes dan sylw.
- *Archwilio allanol*
  Adolygwyd cwmpas a dull archwiliad arfaethedig yr archwilwyr a gwnaed yn siŵr nad oedd dim cyfyngiadau na therfynau wedi'u gosod heb gyfiawnhad ar y cwmpas.

### Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i raddau rhesymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond darparu sicrwydd rhesymol ac nid llwyr o effeithiolrwydd.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd i fod i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni polisïau, nodau ac amcanion HCC, gwerthuso'r tebygolrwydd bod y risgiau hynny'n digwydd ac effaith hynny, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

### Y gallu i drafod risg

Rhoddir arweinyddiaeth i'r broses o reoli risg drwy Fwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Rheolwyr gweithredol HCC yw tîm rheoli risg y cwmni ac maent yn gyfrifol am ledaenu arferion da ar draws y sefydliad. Rhoddir hyfforddiant i'r tîm gweithredol er mwyn iddynt allu cyflawni'r gwaith hwn.



**8. Datganiad Llywodraethu (parhad)**

**Y Fframwaith Risg**

Mae polisi rheoli risg y cwmni'n elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol a'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Mae'n cynnwys agwedd HCC at reoli risg, ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, y broses o reoli risg a'r trefniadau adolygu.

Pennir archwaeth risg HCC drwy asesu effaith y risg ar nodau, amcanion ac adnoddau ariannol y cwmni.

Mae'r eitemau a ganlyn yn elfennau allweddol o'r system rheolaeth fewnol:

*Cytundeb fframwaith*

Sefydlwyd cytundeb fframwaith rhwng HCC a Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn rhoi manylion trefniadau llywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru, fel yr unig aelod, a HCC.

*Cofrestr Risgiau*

Sefydlwyd Cofrestr Risgiau sy'n nodi risgiau ac yn eu sgorio am risg ac effaith. Caiff y gofrestr ei harchwilio'n rheolaidd gan y tîm gweithredol a'i hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Caiff risgiau eu sgorio yn ôl eu tebygolrwydd a'u heffaith. Nodwyd 12 risg strategol, a sgoriwyd y rhain yn uchel o ran tebygolrwydd/effaith ar ôl asesu'r mesurau gweddilliol. Roedd yr holl risgiau hyn yn ymwneud ag effaith y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar bolisïau'r Llywodraeth, ar nawdd Ewropeaidd ac ar enwau bwydydd gwarchodedig, a phan adolygwyd y gofrestr risgiau ddiwethaf, ni chafwyd ateb i'r risgiau hyn. Mae gan HCC berthynas barhaus â swyddogion ar lefel Cymru, y DU a'r UE fel eu bod yn cael gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau.

*Cynllun Parhad Busnes*

Paratowyd cynllun i ystyried ffyrdd i HCC barhau i weithredu ei weithgareddau craidd pe bai trychineb yn digwydd.

*Cynllun Corfforaethol*

Cyhoeddwyd Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod tair blynedd nesaf.

*Cynllun Gweithredol*

Cyflwynir Cynllun Gweithredol Blynyddol a Chyllideb i'r Bwrdd. Cymeradwywyd y Cynllun ar gyfer 2018/19 yng nghyfarfod o'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018.

*Adroddiadau Ariannol*

Cyflwynir adroddiadau ariannol i'r Bwrdd yn rheolaidd.

*Adroddiadau Anariannol*

Mae HCC wedi sefydlu System Fonitro a Gwerthuso sy'n monitro canlyniadau ac allbynnau yn erbyn y targedau a bennwyd yn y Cynllun Gweithredol. Mae pob adran a'r tîm gweithredol yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni, bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol a bod HCC yn rhoi gwerth am arian i dalwyr yr ardoll.

## 9. Absenoldeb Salwch

Yn ystod y flwyddyn, roedd cyfradd absenoldeb salwch HCC yn 0.50% (2018: 0.98%).

## 10. Datganiad Ynglŷn â Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn eu swyddi ar y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo wedi cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae pob un o'r cyfarwyddwyr wedi cadarnhau eu bod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel Cyfarwyddwyr er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn gwneud yn siŵr ei bod wedi cael ei throsglwyddo i'r Archwilydd.

## 11. Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'r gyfraith cwmnïau yn mynnu bod Cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y cwmni'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ("IFRS") fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ("UE").
Mae'r datganiadau ariannol yn ofynnol o dan y gyfraith ac IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE er mwyn cyflwyno'n deg berfformiad a sefyllfa ariannol y cwmni. Mae'r cyfeiriadau yn Neddf Cwmnïau 2006 at ddatganiadau ariannol sydd yn rhoi darlun cywir a theg yn gyfeiriadau at ddatganiadau ariannol o'r fath sydd yn cael eu cyflwyno'n deg.

O dan y gyfraith cwmnïau, rhaid i Gyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o warged neu ddiffyg y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

a. ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u defnyddio'n gyson;
b. dyfarnu a gwneud amcangyfrifon cyfrifyddu sydd yn rhesymol a doeth;
c. datgan a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;
d. paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni yn parhau i weithredu.

**11. Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr (parhad)**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cyfrifon cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac yn esbonio trafodion y cwmni ac sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni gan alluogi iddynt sicrhau bod y datganiadau ariannol ac Adroddiad Taliadau'r Cyfarwyddwyr yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni a thrwy hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan HCC ac yn gyfrifol am ei chywirdeb. Gall y ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig ynglŷn â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

**Drwy Orchymyn y Bwrdd.**

T G Howells
Ysgrifennydd Cwmni

4 Gorffennaf 2019

**Adroddiad Taliadau**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

**Pwyllgor Taliadau**
Mae Pwyllgor Taliadau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn argymell tâl y Prif Weithredwr. Dyma gyfansoddiad y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019:- R L J Madeley-Davies (Cadeirydd), J T Davies, K Roberts.

**Datganiad ar y Polisi Taliadau**
Mae holl Gyfarwyddwyr y cwmni yn anweithredol a, gan fod y cwmni yn gyfyngedig drwy warant, nid oes ganddynt unrhyw gyfranddaliadau yn y cwmni.
Penodwyd K Roberts yn Gadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig o 24 Gorffennaf 2017 tan 31 Mawrth 2020, yn dilyn ei benodiad fel Cadeirydd Interim o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Pennwyd ei dâl ar uchafswm o £25,200 y flwyddyn dros y cyfnod y mae'n dal y swydd.
Penodwyd y Cyfarwyddwyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig o 1 Ebrill 2017 i wasanaethu am dair blynedd. Tâl y Cyfarwyddwr anweithredol yw £300 y dydd ynghyd â threuliau.

**Cofnodion Presenoldeb**
Cyfarfu'r Bwrdd 6 gwaith rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019. Isod, nodir nifer y cyfarfodydd o'r Bwrdd yr oedd y Cyfarwyddwyr yn bresennol ynddynt:

| | 2018/2019 | 2017/2018 |
|---|---|---|
| G W Davies | 6 | 6 |
| D D H Davies | 6 | 4 |
| J T Davies | 6 | 4 |
| R L J Madeley Davies | 6 | 6 |
| I L Dunsford | 1 | 4 |
| H S G Howells | 6 | 6 |
| B Jones | 6 | 5 |
| K Roberts | 6 | 6 |
| C M Smith | 6 | 6 |
| C Williams | 6 | 6 |
| O B Williams | 4 | 5 |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cyfarwyddwyr yn mynychu cyfarfodydd o Is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ogystal â digwyddiadau'r diwydiant yn ystod y flwyddyn.

**Mae'r adran hon o'r Adroddiad Taliadau yn archwiliadwy**

**Enillion y Cyfarwyddwyr**

Dyma Enillion y Cyfarwyddwr a fu'n gwasanaethu drwy'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018:

| | 2019 | 2018 | 2019 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| | Taliadau | | Treuliau | |
| Taliadau o fewn y band £25,001 - £30,000 | | | | |
| K Roberts | 25,200 | 25,132 | 6,185 | 6,237 |
| Taliadau o fewn y band £0 - £5,000 | | | | |
| G W Davies | 3,000 | 4,050 | 320 | 499 |
| D D H Davies | 3,600 | 3,000 | 484 | 315 |
| J T Davies | 3,300 | 2,850 | 371 | 467 |
| R L J Madeley Davies | 4,350 | 3,900 | 644 | 701 |
| I L Dunsford | 0 | 3,150 | 0 | 582 |
| H S G Howells | 3,900 | 3,900 | 481 | 253 |
| B Jones | 1,350 | 1,650 | 135 | 112 |
| C M Smith | 3,600 | 4,200 | 773 | 951 |
| C Williams | 3,600 | 4,500 | 324 | 365 |
| O B Williams | 2,850 | 3,750 | 697 | 912 |

Telir i aelodau'r Bwrdd am fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, yn is-bwyllgorau'r Bwrdd ac yn nigwyddiadau'r diwydiant.

Ni chafodd yr un o'r Cyfarwyddwyr fuddion mewn nwyddau ac nid oeddent yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn y cwmni. Aethant i dreuliau yng nghyswllt eu dyletswyddau fel Cyfarwyddwyr ac ad-dalwyd unrhyw filltiroedd a deithiasant ar fusnes y cwmni ar gyfraddau cymeradwy Cyllid a Thollau EM.

Yn ychwanegol at y Cyfarwyddwyr, roedd enillion y Prif Weithredwr, T G Howells, fel a ganlyn:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Tâl | £100,001 - £105,000 | £100,001 - £105,000 |
| Buddion mewn nwyddau | £3,097 | £2,581 |
| Cyfraniadau pensiwn | £17,772 | £17,380 |

**Datgeliadau Cyflog Teg**

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Cyfanswm taliadau canolrifol staff | £32,515 | £31,292 |
| Cymhareb â'r gweithiwr ar y cyflog uchaf | 3.22 | 3.28 |
| Ystod taliadau staff | £18,574 - £69,760 | £18,165 - £66,398 |

T G Howells
4 Gorffennaf 2019 Ysgrifennydd Cwmni



**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales**

**Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

**Barn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 sy'n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifau Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu o bwys. Mae'r fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y cwmni ar 31 Mawrth 2019 ac o'i warged ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ar y materion canlynol y mae'r ISAs (UK) yn ei gwneud hi'n ofynnol imi adrodd wrthych arnynt os yw'r:

- Cyfarwyddwyr yn defnyddio'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- os nad yw'r Cyfarwyddwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a welwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ynglŷn â gallu'r cwmni i barhau i fabwysiadu'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol am o leiaf ddeuddeg mis o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

**Gwybodaeth arall**

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn y cyfrifon a'r adroddiad blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau

ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir yn wahanol yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.



**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Cymru (parhad)**

**Gwybodaeth Arall (parhad)**

Yng nghyswllt fy ngwaith yn archwilio'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i ganfod anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a chanfod unrhyw wybodaeth sydd i bob golwg yn sylweddol anghywir ar sail, neu'n sylweddol anghyson â'r, wybodaeth a gefais wrth wneud yr archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad neu anghysonderau sylweddol, rwy'n ystyried y goblygiadau ar fy adroddiad.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriedir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Adroddiad ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006**

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhan o Adroddiad Taliadau'r Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006;
- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol;
- mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr wedi cael ei baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion yr adroddaf arnynt fel eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd wrth wneud yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau sylweddol yn adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ar y materion canlynol y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol imi adrodd wrthych arnynt, os, yn fy marn i:

- na chadwyd cyfrifon cyfrifyddu digonol, neu os na ddaeth datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad i law oddi wrth ganghennau nad ymwelsom â nhw;
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau a'r cofnodion cyfrifyddu;
- os na wneir datgeliadau penodol am daliadau cyfarwyddwyr fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol;
- os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn imi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad oedd gan y Cyfarwyddwyr hawl i fanteisio ar yr eithriad ar gyfer cwmnïau bach wrth baratoi adroddiad y cyfarwyddwyr na manteisio ar yr eithriad ar gyfer cwmnïau bach rhag gorfod paratoi adroddiad strategol.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Cymru (parhad)**

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr dros y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 7, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol y barna'r Cyfarwyddwyr ei bod yn angenrheidiol i'w galluogi i baratoi datganiadau ariannol nad oes ynddynt gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol a defnyddio'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni fernir bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr i archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel dda o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fo'n bresennol. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a bernir eu bod yn sylweddol os, yn unigol neu â'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

### Cyfrifoldebau dros reoleidd-dra

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Yr wyf fi'n gyfrifol am fynegi barn ar a yw'r gwariant a'r incwm wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

**Datganiad o Incwm Cynhwysfawr**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

| | Nodiadau | 2019 £ | 2018 £ |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | 5 | 4,272,998 | 4,125,382 |
| **Gwariant** | | | |
| Treuliau gweithredol | 7 | 4,194,342 | 3,980,821 |
| **Gwarged gweithredol** | | 78,656 | 144,561 |
| Incwm Cyllid | | 1,478 | 187 |
| **Incwm Uwchlaw Gwariant ar Weithgareddau Arferol Cyn Treth** | 7 | 80,134 | 144,748 |
| Treth | 10 | (281) | (37) |
| **Gwarged a chyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn y gellir ei briodoli i aelod y cwmni** | | 79,853 | 144,711 |

Rhif Cofrestru'r Cwmni 4635113

**Mantolen**
**31 Mawrth 2019**

| | Nodiadau | 2019 £ | 2018 £ |
|---|---|---|---|
| **Asedau Anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 11 | 466,020 | 485,107 |
| | | 466,020 | 485,107 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Derbyniadau drwy fasnach a derbyniadau eraill | 12 | 996,113 | 863,868 |
| Arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian | | 1,001,918 | 822,500 |
| | | 1,998,031 | 1,686,368 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | |
| Taladwyon masnach a thaladwyon eraill | 13 | 641,079 | 428,600 |
| Rhwymedigaethau treth cyfredol | | 281 | 37 |
| | | 641,360 | 428,637 |
| **Asedau Cyfredol Net** | | 1,356,671 | 1,257,731 |
| **Asedau Net** | | 1,822,691 | 1,742,838 |
| **Arian Wrth Gefn** | | | |
| Incwm a Gedwir | 15 | 1,822,691 | 1,742,838 |

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019, roedd gan y cwmni hawl i gael ei eithrio rhag gofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 dan adran 482 o'r Ddeddf hon (cwmnïau nid er elw sy'n cael archwiliad sector cyhoeddus).
Cafodd y datganiadau ariannol, sy'n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Mantolen, Datganiad o Lifau Arian a'r nodiadau cysylltiedig (1 i 21), eu cymeradwyo a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 4 Gorffennaf 2019 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan

K Roberts

T G Howells

Cadeirydd Swyddog Cyfrifyddu

**Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales**
**Cwmni Cyfyngedig drwy Warant**



**Datganiad Llifau Arian**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

| | **2019** £ | **2018** £ |
|---|---|---|
| **Llifau Arian o Weithgareddau Gweithredol** | | |
| Gwarged gweithredol | 78,656 | 144,561 |
| Dibrisiad a cholled ar waredu asedau | 20,179 | 19,906 |
| Ail-brisio eiddo | - | (12,500) |
| Symudiadau yn y cyfalaf gweithio: | | |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y derbyniadau drwy fasnach a derbyniadau eraill | (132,245) | 70,772 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y taladwyon masnach a thaladwyon eraill | 212,479 | (22,294) |
| Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau | 179,069 | 200,445 |
| Treth a dalwyd | (37) | (108) |
| Arian net o weithgareddau gweithredu | 179,032 | 200,337 |
| **Llifau Arian o Weithgareddau Buddsoddi** | | |
| Llog a gafwyd | 1,478 | 187 |
| Prynu offer a chyfarpar | (1,092) | (23,948) |
| Enillion o waredu asedau | - | 3,630 |
| Arian net a gynhyrchwyd drwy/(defnyddiwyd) mewn gweithgareddau buddsoddi | 386 | (20,131) |
| **Cynnydd net mewn arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian** | 179,418 | 180,206 |
| Arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian ar ddechrau'r flwyddyn | 822,500 | 642,294 |
| Arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian ar ddiwedd y flwyddyn | 1,001,918 | 822,500 |

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

**1. Gwybodaeth gyffredinol**

Mae Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales (HCC) yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gorfforwyd ac a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Rhif cofrestru'r cwmni yw 4635113 a'i swyddfa gofrestredig yw Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, SY23 3FF.
Yr unig aelod o'r cwmni gydol y flwyddyn oedd Gweinidogion Cymru.

**2. Datganiad Cydymffurfio**

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac yn unol â darpariaethau cymwys Deddf Cwmnïau 2006. Dilynwyd hefyd egwyddorion Llawlyfr Adrodd Ariannol 2018-19 Trysorlys EM.

**3. Sail Paratoi**

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling. Fe'u paratowyd ar sail cost hanesyddol ac eithrio'r eiddo rhydd-ddaliadol a gyflwynir ar sail prisiad.

**4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys**

**Datganiadau ariannol ar wahân**

Nid oes gofyn i'r cwmni baratoi cyfrifon grŵp gan fod y grŵp sy'n cynnwys y cwmni a'i is-gwmni yn syrthio o dan trothwy grwpiau bach Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal, nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn i gyfrifon grŵp gael eu paratoi.

**Busnes Gweithredol**

Mae gan y cwmni asedau net o £1,822,691 ar 31 Mawrth 2019. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol gan fod y cwmni wedi paratoi cyllideb a rhagolwg llif arian ar gyfer y deuddeg mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn sy'n dangos bod gan y cwmni arian digonol i ddal i fodloni ei rwymedigaethau pan maent yn ddyledus. Ar sail hyn mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried bod y cwmni yn fusnes gweithredol.

**Refeniw**

Mae Refeniw yn cynnwys incwm o'r ardoll, grantiau a gwasanaethau drwy anfonebau.
Incwm o'r ardoll – codir ardoll statudol am yr holl anifeiliaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru i'w bwyta gan bobl. Cydnabyddir incwm ar ddyddiad y lladd, hyd at wythnos lawn olaf Mawrth.
Hawlir grantiau pan fo'r gwariant wedi'i wneud ond cydnabyddir incwm yn y datganiadau ariannol i gyfateb i'r costau pan fo'r gweithgaredd wedi digwydd. Mae incwm o grantiau y tu allan i gwmpas TAW.

Incwm o grantiau - derbynnir grantiau gan Lywodraeth Cymru, drwy arian grant uniongyrchol a'r Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig, sef Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020.
Gwasanaethau drwy anfonebau - cydnabyddir yr incwm pan fo'r gweithgaredd wedi digwydd. Mae'r cyfryw weithgaredd yn ymwneud â gwasanaethau a gyflawnir ar ran cyrff eraill. Nodir incwm heb dreth ar werth.



**4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)**

**Eiddo, offer a chyfarpar**
Nodir yr eiddo rhydd-ddaliadol adeg ei brisio llai'r dibrisiad cronedig. Ni ddarperir dibrisiad yn y flwyddyn gaffael. Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn dibrisio. Caiff yr eiddo rhydd-ddaliadol ei brisio bob tair blynedd, oni fod symudiad y farchnad leol, ym marn y Cyfarwyddwyr, yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei brisio'n amlach.
Nodir offer a chyfarpar am eu cost llai'r dibrisiad cronedig.
Dibrisir asedau eiddo rhydd-ddaliadol, offer a chyfarpar i'w gwerth gweddilliol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol ar y seiliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhydd-ddaliadol | dros 30 mlynedd o 2009 |
| Cyfarpar cyfrifiadurol | balans gostyngol o 33% |
| Dodrefn swyddfa | balans gostyngol o 25% |
| Cerbydau | balans gostyngol o 25% |

**Amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar**
Ar ddyddiad pob mantolen, mae'r Cwmni'n adolygu symiau cario ei eiddo, ei offer a'i gyfarpar er mwyn pennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad o safbwynt y cynllun gweithredol a'r cynllun corfforaethol. Os oes arwydd o'r fath, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif er mwyn canfod maint y golled oherwydd amhariad (os o gwbl).
Y swm adferadwy yw gwerth teg uchaf yr ased ar ôl tynnu'r costau i'w werthu a'r gwerth o'i ddefnyddio. Er mwyn asesu ei werth o'i ddefnyddio, caiff llifau arian amcangyfrifedig y dyfodol eu gostwng i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth sy'n adlewyrchu asesiadau'r farchnad gyfredol o werth arian o ran amser a'r risgiau sy'n benodol i'r ased nad yw'r llif arian a amcangyfrifir i'r dyfodol wedi ei addasu ar gyfer yr ased hwnnw.
Cydnabyddir colled amhariad yn syth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr, oni bai fod yr ased priodol yn cael ei gario ar werth wedi'i ailbrisio; os felly, bydd y golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio. Pan fo colled amhariad yn gwrthdroi yn ddiweddarach, bydd swm cario'r ased yn cael ei gynyddu i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy, ond fel nad yw'r swm cario cynyddol yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i bennu pe na fyddai colled amhariad wedi'i chydnabod ar gyfer yr ased mewn blynyddoedd blaenorol. Caiff gwyrdroi colled amhariad ei gydnabod ar unwaith yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, oni bai bod yr ased priodol, yn cael ei gario ar werth wedi'i ailbrisio; os felly, bydd y gwyrdroad yn cael ei drin fel cynnydd ailbrisio.

**Offerynnau Ariannol**

Cydnabyddir asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol pan fo'r Cwmni wedi dod yn rhan o ddarpariaethau contractiol yr offeryn.



**4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)**

**Asedau ariannol**
Derbyniadau drwy fasnach, incwm ardoll sy'n ddyledus ac incwm cronedig:

Caiff derbyniadau drwy fasnach, incwm ardoll sy'n ddyledus ac incwm cronedig eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth teg. Darperir ar gyfer amhariad pan geir tystiolaeth wrthrychol (gan gynnwys cwsmeriaid ag anawsterau ariannol neu sy'n hwyr yn talu) na fydd symiau'n cael eu hadfer yn unol â thelerau gwreiddiol y cytundeb. Sefydlir darpariaeth ar gyfer amhariad pan fo gwerth cario'r eitem dderbyniadwy'n fwy na gwerth presennol llifau arian y dyfodol.

**Arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian**
Mae arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon mewn sefydliadau ariannol sydd ar gael yn syth ar gais neu â rhybudd heb fod yn fwy na thri mis.

**Rhwymedigaethau ariannol**
Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau cytundebol yr ymrwymwyd iddynt.

**Taladwyon masnach**
Cydnabyddir taladwyon masnach i ddechrau ar eu cost.

**Prydlesau**
Caiff prydlesau sy'n trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a manteision perchnogaeth i'r cwmni eu dosbarthu yn brydlesau cyllid. Prydlesau gweithredol yw'r prydlesau eraill ac ni chânt eu cydnabod ym mantolen y cwmni. Mae taliadau dan brydlesau gweithredol yn cael eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

**Pensiynau**
Mae'r cwmni'n cyfrannu at gynlluniau pensiwn unigol ar gyfer rhai gweithwyr a drosglwyddwyd i'r cwmni dan reoliadau TUPE, at gynllun pensiwn budd diffiniedig. Rhoddir cost y pensiynau rheolaidd ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae'n seiliedig ar y costau pensiwn disgwyliedig dros gyfnod gwasanaethu'r gweithwyr. Nid yw'r cynllun yn awr ar gael i weithwyr newydd.

Mae’r cwmni yn gwneud cyfraniadau diffiniedig at gynlluniau pensiwn unigol ar gyfer ei holl weithwyr eraill. Caiff cyfraniadau sy’n daladwy ar gyfer y flwyddyn eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Cafodd y cynlluniau pensiwn eu rhoi at ei gilydd o dan Gynllun Pensiwn Grŵp Hybu Cig Cymru. Mae’r cwmni’n dechrau cyfrannu cyn gynted ag y bo’n ymarferol bosibl ar ôl i’r gweithwyr ddechrau yn y swydd.

**Arian Tramor**
Bydd gweithgareddau masnachu arferol ag arian tramor, sef taliadau i gyflenwyr tramor, yn cael eu cofnodi fel sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y trafodiad.



**4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)**

**Amcangyfrifon a Dyfarniadau Cyfrifyddu**
Wrth ddefnyddio polisïau cyfrifyddu’r Cwmni, a ddisgrifir yn gynharach yn y nodyn hwn, mae’n ofynnol i’r Cyfarwyddwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn gwbl amlwg o ffynonellau eraill. Mae’r amcangyfrifon a’r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i’r amcangyfrifon hyn. Adolygir yr amcangyfrifon a’r tybiaethau sy’n sylfaen iddynt yn barhaus. Cydnabyddir cywiriadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod pan fo’r amcangyfrif yn cael ei gywiro os yw’r cywiro’n cael effaith ar y cyfnod hwnnw’n unig neu yng nghyfnod y cywiro a chyfnodau diweddarach os yw’r cywiro’n effeithio ar y cyfnod cyfredol a chyfnodau diweddarach.

Dyfarniadau allweddol wrth roi polisïau cyfrifyddu’r Cwmni ar waith:
Y canlynol yw’r dyfarniadau allweddol, ar wahân i’r rhai sy’n ymwneud ag amcangyfrifon (gweler isod), y mae’r Cyfarwyddwyr wedi’u gwneud wrth roi polisïau cyfrifyddu’r Cwmni ar waith ac y mae’n rhaid iddynt gael yr effaith fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.
Cydnabod refeniw:
Wrth wneud eu dyfarniad, ystyriodd y cyfarwyddwyr y meini prawf manwl ar gyfer cydnabod y refeniw a nodir yn IAS 18 Refeniw.
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus:
Mae cydnabod amhariad ar ased ariannol yn seiliedig ar ba mor debygol ydynt o adennill gwerth yr asedau ariannol. Felly, wrth gydnabod amhariad mae gofyn bod yn gallu cyfiawnhau’r gallu i adennill.
Amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar:
Wrth benderfynu a oes amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar, mae angen amcangyfrif gwerth-ar-ddefnydd yr unedau sy’n cynhyrchu arian. Mae’r cyfrifiad gwerth-ar-ddefnydd yn gofyn i’r endid amcangyfrif y llifau arian y mae disgwyl iddynt ddeillio o’r uned cynhyrchu arian yn y dyfodol ynghyd â chyfradd ddisgownt addas er mwyn cyfrifo’r gwerth cyfredol.
Rhwymedigaethau pensiynau:
Mae’r Cyfarwyddwyr wedi cael ac wedi ystyried prisiad actiwaraidd ynglŷn â rhwymedigaeth bosibl o safbwynt un o gynlluniau pensiwn y Cwmni, fel y gwelir yn nodyn 18.

**Ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrifon**
Mae'r Cyfarwyddwyr yn credu na cheir dim ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrifon yn y cyfrifon ar gyfer y cyfnod.



**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

**4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)**

**Effaith safonau nad ydynt ar waith eto**
Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried effaith y safonau a'r dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt ar waith eto ac na chawsant eu mabwysiadu'n gynnar gan y cwmni.

Ac eithrio IFRS 16 Prydlesau, mae'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld na chaiff mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn i'r dyfodol ddim effaith o bwys ar ddatganiadau ariannol y Cwmni.
Ar hyn o bryd, ni ellir bwrw amcan rhesymol o effaith IFRS 16 a fydd yn weithredol o 2020-21 ymlaen.

**5. Refeniw**

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Ardoll | 3,429,837 | 3,484,082 |
| Grantiau a gafwyd: RDP | 259,992 | 55,358 |
| : Llywodraeth Cymru | 441,000 | 90,675 |
| : Hybu Marchnadoedd yr UE | - | 453,848 |
| Gwasanaethau | 142,169 | 41,419 |
| | 4,272,998 | 4,125,382 |
| | ======== | ======= |

Fel y nodir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, mae cyrff ardollau Prydain Fawr wedi cytuno ar y cyd ar y gwariant, dan gronfa wedi'i neilltuo, ar weithgareddau Prydain Fawr sydd o fudd i dalwyr yr ardoll ym Mhrydain Fawr. Gwariwyd cyfanswm o £1,845,000.

**6. Segmentau Gweithredol**

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod y cwmni yn cynnwys dau segment gweithredol busnes, gyda phob un yn cyfrannu at ddatblygu a hybu cig coch Cymru. Pennwyd y segmentau yn ôl y ffynhonnell incwm a'r gwariant perthnasol.

Mae'r holl incwm a gynhyrchir gan y busnes yn codi o'r Deyrnas Unedig.

| | | Ardoll | Grantiau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2019 | Refeniw | 3,572,006 | 700,992 | 4,272,998 |
| | Gwariant | 3,492,135 | 702,207 | 4,194,342 |
| | Gwarged gweithredol | 79,871 | (1,215) | 78,656 |
| | | ======== | ====== | ======= |
| 2018 | Refeniw | 3,979,349 | 146,033 | 4,125,382 |
| | Gwariant | 3,834,784 | 146,037 | 3,980,821 |
| | Gwarged gweithredol | 144,565 | (4) | 144,561 |
| | | ======== | ====== | ======= |



**6. Segmentau Gweithredol (parhad)**

Nid yw'r gweithgaredd a ariennir drwy grant Hybu Marchnadoedd Mewnol yr UE yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018 yn cael ei ystyried yn segment, gan nad yw'r grant ond yn cyfrannu 50% o'r gwariant cysylltiedig, ac fe'i cynhwysir felly yn y segment ardoll. Daeth y grant i ben yn ystod y flwyddyn honno.

Mae'r sector ardoll hefyd yn cynnwys gwasanaethau eraill sy'n ychwanegu at wariant yr ardoll.

Fel rhan o'r incwm o'r ardoll, mae 3 chwmni sy'n rhedeg lladd-dai yng Nghymru i gyfrif am 28%, 20% a 18% yn y drefn honno (2018: 29%, 22% a 18%) o gyfanswm yr incwm o £4,272,998.

Fel rhan o'r grantiau, y grantiau uniongyrchol a gafwyd gan Llywodraeth Cymru a hefyd dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20 sydd i gyfrif am 16.4% (2018: 3.5%) o gyfanswm yr incwm o £4,272,998.

**7. Incwm Uwchlaw Gwariant ar Weithgareddau Cyffredin Cyn Treth**

Nodir y canlyniad ar ôl codi/(credydu) y canlynol:

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Archwilwyr - archwiliad | 18,136 | 17,069 |
| Costau staff (nodyn 8) | 1,154,871 | 1,008,333 |
| Ffioedd y Cyfarwyddwyr (nodyn 9) | 65,164 | 71,476 |
| Dibrisiad | 25,666 | 19,170 |
| Ail-brisio eiddo | - | (12,500) |
| Colled o waredu asedau | - | 736 |
| Elw/(Colled) ar gyfnewid arian tramor | (2,659) | 2,749 |
| Rhent prydlesau gweithredol - cyfarpar | 14,147 | 28,577 |
| eiddo | 35,403 | 33,161 |
| Dyledion drwg y darperir ar eu cyfer/ (a adenillir) parthed yr ardoll sy'n ddyledus | 8,754 | (8,511) |

**Treuliau gweithredol**

| | | **2019** | **2018** |
|---|---|---|---|
| | | **£** | **£** |
| Allforio: | Sefydledig | 671,795 | 1,482,300 |
| | Yn datblygu | 53,169 | 104,473 |
| | Marchnadoedd Newydd | 48,521 | 51,647 |
| | Grantiau | 442,214 | 90,696 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cartref: | Adwerthu | 213,553 | 138,909 |
| | Defnyddwyr | 906,312 | 666,162 |
| | Gwasanaethu bwyd | 97,619 | 70,107 |
| Datblygu Brandiau | | 298,551 | 290,834 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | | 259,993 | 55,341 |
| Gwybodaeth am y Farchnad | | 246,558 | 218,990 |
| Ymchwilio a Datblygu | | 60,352 | 76,380 |
| Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi | | 237,235 | 105,009 |
| Costau corfforaethol | | 658,470 | 629,973 |
| Cyfanswm | | 4,194,342 | 3,980,821 |
| | | ======= | ======= |



**7. Incwm Uwchlaw Gwariant ar Weithgareddau Cyffredin Cyn Treth (parhad)**

Caiff costau staff eu priodoli i'r gweithgaredd y maent yn berthnasol iddo.

Mae'r dadansoddiad o dreuliau gweithredol yn wahanol i'r un a ddatgelwyd yn natganiadau ariannol 2017-18. Fe wnaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr adolygu'r cynllun gweithredol ac yn dilyn hynny teimlwyd bod y rhain yn rhoi cynrychiolaeth gliriach o weithgareddau HCC.

**8. Costau Staff**

Roedd costau staff yn cynnwys:

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Cyflogau | 969,776 | 847,888 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 99,591 | 91,402 |
| Costau pensiwn eraill | 85,504 | 69,043 |
| | 1,154,871 | 1,008,333 |
| | ======= | ======= |

Nifer gyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn, ac eithrio Cyfarwyddwyr, a gyflogwyd ar gontractau cyflogaeth y DU, yn ystod y flwyddyn oedd:

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| Datblygu Marchnadoedd | 7 | 6 |
| Datblygu'r Diwydiant | 6 | 3 |
| Cyfathrebu | 4 | 4 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 11 | 11 |
| | 28 | 24 |

**9. Enillion y Cyfarwyddwyr**

Dyma enillion y Cyfarwyddwyr:

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Ffioedd | 54,750 | 60,081 |

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau | 10,414 | 11,395 |
| | 65,164 | 71,476 |
| | ====== | ======= |

Ni wnaed dim taliadau i'r Cyfarwyddwyr o safbwynt cynlluniau pensiwn personol.



**10. Treth**

Treth ar incwm cyllid. Nodir y dreth a godwyd isod:

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Treth a godwyd ar gyfer y cyfnod | 281 | 37 |
| | ===== | ===== |

Cysoni cyfanswm y dreth a godir:

Gyda chytundeb Cyllid a Thollau EM, nid yw'r cwmni yn cyflawni dim gweithgareddau masnachu. Yr unig incwm y telir y dreth gorfforaethol arno yw incwm cyllid.

| | | |
|---|---|---|
| Incwm Cyllid | 1,478 | 187 |
| | ===== | ===== |

Treth a godir ar gyfradd treth gorfforaethol y DU o 19% (2018: 19%)

| | | |
|---|---|---|
| | 281 | 37 |
| | ===== | ===== |

**11. Eiddo, offer a chyfarpar**

Roedd yr Eiddo, yr Offer a'r Cyfarpar yn cynnwys:

| | **Tir Rhydd-ddaliadol Ac Eiddo** | **Swyddfa Cyfarpar** | **Modurol Cerbydau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Cost neu Brisiad** | | | | |
| 1 Ebrill 2017 | 480,00077,851 | 12,550 | 570,401 | |
| Ychwanegiadau | - | 4,670 | 19,278 | 23,948 |
| Gwarediadau | - | (2,079) | (12,550) | (14,629) |
| Ailbrisio | (30,000) | - | - | (30,000) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 450,000 | 80,442 | 19,278 | 549,720 |
| Ychwanegiadau | - | 1,092 | - | 1,092 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 450,000 | 81,534 | 19,278 | 550,812 |
| **Dibrisiad** | | | | |
| 1 Ebrill 2017 | 28,334 | 62,398 | 7,474 | 98,206 |
| Swm a godir am y flwyddyn | 14,166 | 3,296 | 1,708 | 19,170 |
| Rhyddhawyd o'i waredu | - | (2,004) | (8,259) | (10,263) |
| Ailbrisio | (42,500) | - | - | (42,500) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ar 31 Mawrth 2018 | - | 63,690 | 923 | 64,613 |
| Swm a godir am y flwyddyn | 12,917 | 3,164 | 4,098 | 20,179 |
| Rhyddhawyd o'i waredu | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 12,917 | 66,854 | 5,021 | 84,792 |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 437,083 | 14,680 | 14,257 | 466,020 |
| | ======= | ====== | ====== | ======= |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 450,000 | 16,752 | 18,355 | 485,107 |
| | ======= | ====== | ====== | ======= |



## 11. Eiddo, Offer a Chyfarpar (parhad)

Cafodd gwerth marchnad yr adeilad ei brisio gan brisiwr annibynnol ar 31 Mawrth 2018 ar werth o £450,000. Gwnaed hyn ar sail meddiant gwag rhydd-ddaliadol gan Aled Ellis, FLAA, gan dybio cyfnod marchnata o ddwy flynedd. Pe byddai'r adeilad wedi cael ei gario dan y model cost, byddai'r swm cario a gydnabuwyd ar 31 Mawrth 2019 wedi bod yn £668,274. (2018:£695,154).
Gwnaed adolygiad amhariad o'r eiddo, yr offer a'r cyfarpar ac ni ddatgelodd fod angen cofnodi ffi amhariad na newid y cyfraddau dibrisiad a ddefnyddir ar hyn o bryd.

**Asedau Anniriaethol**
Gwnaed ychwanegiadau o £5,487 (2018:£dim) yn ystod y flwyddyn. Dibrisiwyd y rhain yn llawn yn ystod y flwyddyn gan esgor ar werth net ar y llyfrau o £ddim ar ddiwedd y flwyddyn.

## 12. Derbyniadau drwy Fasnach a Derbyniadau Eraill

Roedd y Derbyniadau drwy Fasnach a Derbyniadau Eraill yn cynnwys:

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Derbyniadau | 7,291 | 8,987 |
| Incwm ardoll dyledus | 428,779 | 447,982 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 543,710 | 388,803 |
| Swm sy'n ddyledus o gwmni'r grŵp (nodyn 20) | 16,333 | 18,096 |
| | 996,113 | 863,868 |
| | ======= | ======= |

Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod y gwerth ar y llyfrau yn frasamcan o'r gwir werth.

Cyfartaledd y cyfnod credyd yw 50 diwrnod (2018: 42 diwrnod).

Caniatawyd ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig o'r incwm ardoll dyledus gwerth £63,866 (2018:£55,112). Cyfrifwyd y swm hwn ar ôl adolygu hanes talu dyledwyr unigol ar ddyddiad y fantolen, ac mae'n cynrychioli darpariaethau yn erbyn y symiau cario perthnasol. Mae dadansoddiad o'r symudiad ar y lwfans i'w weld isod:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ar 1 Ebrill | 55,112 | 76,904 |
| Dyled a ddilëwyd | - | (13,281) |
| Adenillwyd yn ystod y flwyddyn | - | (10,824) |
| Lwfans ychwanegol | 8,754 | 2,313 |
| Ar 31 Mawrth | 63,866 | 55,112 |

Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod modd adennill holl gredyd y dyledwyr eraill.



**12. Derbyniadau drwy Fasnach a Derbyniadau Eraill (parhad)**

Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau derbyniadwy a oedd heb eu talu ar 31 Mawrth 2019, ond heb amhariad. Ar ôl ystyried hanes taliadau yn y gorffennol, mae'r Cwmni o'r farn bod y balansau yn adferadwy yn y pendraw.

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Hyd at 3 mis oed (2018: 3 mis) | | |
| : derbyniadau | - | - |
| : Incwm o'r ardoll | 140,619 | 103,366 |
| | 140,619 | 103,366 |

O hwn, derbyniwyd £77,394 ar ôl diwedd y flwyddyn.

Yn gynwysedig yn y rhagdaliadau a'r incwm cronedig mae symiau o £274,348 (2018: £64,414) sy'n gysylltiedig â'r gwariant grant dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20, £dim (2018:£17,754) sy'n gysylltiedig â'r gwariant grant dan gyllid Allforio Llywodraeth Cymru a £dim (2018:£154,146) sy'n gysylltiedig â'r gwariant grant dan Gronfa Hybu Marchnadoedd Mewnol yr UE nas ad-dalwyd eto. Mae'r derbyniadau drwy fasnach a derbyniadau eraill yn cynnwys asedau ariannol sy'n gwneud cyfanswm o £436,070 (2018:£456,969) sy'n cael eu categoreiddio fel benthyciadau a derbyniadau.

Rheoli risg ariannol:

Risg Credyd
Mae risg credyd y cwmni'n deillio'n bennaf o'i falansau o'r incwm ardoll sy'n ddyledus. Gan fod yr ardoll yn dâl statudol sy'n seiliedig ar yr holl anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar gyfer y gadwyn fwyd, nid yw HCC yn gallu asesu teilyngdod credyd proseswyr cyn iddynt ddechrau masnachu. Er mwyn lleihau'r risg, mae HCC yn dilyn y gweithdrefnau manwl ynglŷn â rheoli credyd.

Risg Hylifedd

Mae'r cwmni'n cadw llygad agos drwy'r amser ar ei falansau arian o'i gymharu â'r ymrwymiadau dyledus i sicrhau fod ganddo ddigon o arian i dalu rhwymedigaethau'r cwmni pan ddaw'n amser eu talu.

Risg Cyfalaf
Nid yw'r cwmni'n gallu pennu incwm; yn hytrach, pennir cyllidebau gan y Bwrdd bob blwyddyn ar gyfer gwariant arfaethedig, a chaiff y cyllidebau hyn eu monitro. Trosglwyddir unrhyw warged i'r cronfeydd wrth gefn.



**13. Taladwyon Masnach a Thaladwyon Eraill**

Roedd y Taladwyon Masnach a'r Taladwyon Eraill yn cynnwys:

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| **Symiau a fydd yn ddyledus mewn un flwyddyn** | **£** | **£** |
| Treth o fath arall a nawdd cymdeithasol | 105,712 | 178,233 |
| Taladwyon Eraill | 311,305 | 92,783 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 224,062 | 157,584 |
| | 641,079 | 428,600 |

Mae'r taladwyon masnach a thaladwyon eraill yn cynnwys rhwymedigaethau ariannol sy'n gwneud cyfanswm o £403,881 (2018:£250,367) sy'n cael ei gategoreiddio fel rhwymedigaethau ariannol eraill yn ôl cost amorteiddio.

**14. Cyfalaf Cyfranddaliadau**

Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Cyfyngir atebolrwydd yr aelod i £100.

**15. Arian Wrth Gefn**

| | **Incwm a Gedwir** |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 1,598,127 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 144,711 |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 1,742,838 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 79,853 |

| | |
|---|---|
| Ar 31 Mawrth 2019 | 1,822,691 |
| | ======= |

Delir arian wrth gefn i dalu am weithgareddau'r cwmni i'r dyfodol, gan gynnwys amgylchiadau annisgwyl.



**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

**16. Trefniadau prydlesau gweithredol**

Ymrwymiadau prydlesau gweithredol na ellir eu canslo:
Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y Cwmni ymrwymiadau dyledus ar gyfer lleiafswm taliadau prydles i'r dyfodol dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo, sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | | 2019 | 2018 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | |
| Mewn un flwyddyn | - cyfarpar | 6,150 | 5,975 |
| | eiddo | 34,323 | 37,791 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | - cyfarpar | 20,326 | 8,377 |
| | eiddo | 8,581 | 40,238 |
| | | 69,380 | 92,381 |
| | | ===== | ===== |

Y prif eitemau sy'n cael eu prydlesu yw eiddo a chyfarpar swyddfa.

**17. Ymrwymiadau Cyfalaf**

Ar 31 Mawrth 2019 ni cheid dim ymrwymiadau cyfalaf (2018: £0).

**18. Rhwymedigaethau Digwyddiadol**

Mae'r cwmni yn ymwybodol o rwymedigaeth ddigwyddiadol sy'n £572,000 (2018:£490,000). Cyfyd y rhwymedigaeth ddigwyddiadol o ddarpariaethau a75 o Ddeddf Pensiynau 1995 ac mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar 31 Mawrth 2018.

Mae HCC yn gyflogwr cyfrannog yng Nghynllun Pensiwn y Comisiwn Cig a Da Byw er sicrwydd ei weithwyr. Gallai rhwymedigaeth godi i dalu cyfran o unrhyw ddiffyg yn y cynllun pan fo HCC yn rhoi'r gorau i gyflogi unrhyw un o fewn y cynllun hwnnw er y gallai'r rhwymedigaeth hon gael ei gohirio dan drefniant dyledion gohiriedig â'r Ymddiriedolwyr. Cyfrifwyd amcangyfrif o'r atebolrwydd hwn ar 31 Mawrth 2018 ac mae'n £572,000.

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 yn datgan y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau ac eitemau digwyddiadol. Yn benodol, mae'r safon yn pennu tri o ofynion i rwymedigaeth gael ei chofnodi fel darpariaeth a'i nodi felly ym mantolen y cwmni. Cydnabyddir bod gan HCC rwymedigaeth i'r dyfodol i fodloni'r ddyled hon, a gyfyd o'r sefyllfa bresennol o gyflogi staff sydd yng nghynllun Pensiwn yr MLC. Mae'n bosibl y bydd y rhwymedigaeth honno yn gofyn am all-lif o adnoddau pan ddaw'r rhwymedigaeth yn glir. Fodd bynnag, y trydydd gofyn yw bod amcangyfrif dibynadwy yn ofynnol ac ym marn y Cyfarwyddwyr nis bodlonir y gofyn hwn. Roedd yr amcangyfrif ym Mawrth 2018 yn £572,000 ac ym Mawrth 2017 yn £490,000. Roedd yr amcangyfrifon ar gyfer y 3 blynedd blaenorol yn amrywio o £690,000 i £198,000. O'r cyngor pellach a gafwyd, byddai'n ymddangos y gallai amrywiadau o'r fath ddigwydd o un flwyddyn i'r llall. Ym marn y Cyfarwyddwyr nid yw hwn yn darparu amcangyfrif dibynadwy.
Ar y sail honno, datgelir y rhwymedigaeth bosibl fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol ac nid fel darpariaeth.



**19. Trafodion Partïon Perthynol**

Gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019, Llywodraeth Cymru oedd yr unig aelod o'r cwmni a'r parti â'r rheolaeth eithaf.

Yn ystod 2018-19, anfonebodd Llywodraeth Cymru HCC £dim (2018: £dim) ac anfonebodd HCC Lywodraeth Cymru £dim (2018: £dim) am wasanaethau a gyflawnwyd ac am rentu gofod swyddfa. Cyflawnodd HCC wasanaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru gwerth £94,046 (2018: £dim). Anfonebir am y gwasanaethau hyn yn y flwyddyn newydd pan fydd y contract wedi'i gwblhau.

Mae'r cwmni yn cael cyllid drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 y mae Llywodraeth Cymru yn ei weinyddu a derbyniwyd £259,992 ohono (2018:£64,414) yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £274,348 (2018:£64,414) yn ddyledus yn ymwneud â gwariant y grant nas ad-dalwyd eto.
Ceir cyllid uniongyrchol hefyd gan Lywodraeth Cymru am hybu allforion a derbyniwyd £441,000 ohono (2018:£90,675) yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn nid oedd £dim (2018: £17,754) yn ddyledus.
Caiff trafodion a balansau ag is-fenter y cwmni, EIDCYMRU, eu datgelu ar wahân yn Nodyn 20.

**20. Is-fenter**

Y cwmni yw unig aelod, fel gwarant, o EIDCYMRU, sy'n gwmni cyfyngedig drwy warant y mae ei brif leoliad busnes ym Mharc Merlin, Aberystwyth. Mae'r cwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru. Ei brif weithgaredd yw fel swyddfa ar gyfer cofnodi symudiadau defaid yn electronig yng Nghymru. Caiff EIDCYMRU ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, a chaiff y cyfryw gyllid ei ddarparu ar sail taliadau.
Yn ystod y flwyddyn, talodd Hybu Cig Cymru gostau penodol ar ran EIDCYMRU gwerth £64,460 (2018:£52,730) gan roi benthyg £120,000 (2018:£140,615). Ar ddiwedd y flwyddyn mae £16,333 (2018:£18,096) yn ddyledus.

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

## 21. Cynlluniau Pensiwn

**Cynllun Pensiwn Personol Grŵp Hybu Cig Cymru**
Cyfrannodd y cwmni at gynlluniau pensiwn personol unigol ar gyfer rhai o'i weithwyr. Caiff cyfraniadau eu rhoi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel y maent yn digwydd ac roedd y cyfanswm yn £50,152 (2018:£42,659). Roedd cyfraniadau gwerth £4,632 (2018: £6,405) yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cynllun Pensiwn y Comisiwn Cig a Da Byw**
Gwnaeth y cwmni gyfraniadau hefyd i gynllun pensiwn diffiniedig sy'n cael ei redeg gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. Mae 3 o weithwyr HCC sy'n aelodau gweithredol yn ffurfio rhan yn unig o'r cynllun, sydd â 38 o aelodau gweithredol i gyd. Yn ystod y flwyddyn talwyd cyfraniadau gwerth £31,653 (2018:£30,610) a cheid cyfraniadau o £2,638 (2018: £2,551) heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gost yn seiliedig ar werthusiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2015. Telir cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfradd o 19.2% (2018: 19.2%) o'r cyflogau pensiynadwy. Bydd hwn yn cynyddu i 27% ar gyfer y flwyddyn nesaf. Disgwylir cyfraniadau gwerth £45,991 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020.

Mae gofyn i'r cwmni hefyd dalu £3,700 (2018: £dim) i dalu diffyg cyllid bychan sy'n codi o'r prisiad o'r cynllun a wneir bob tair blynedd.

Nid oes gwybodaeth ar gael ynghylch sut mae asedau'r cynllun yn cael eu rhannu rhwng y cyflogwyr cyfrannog. Nid yw'r cwmni felly yn gallu bwrw cyfrif o'r cynllun fel cynllun buddion diffiniedig a bwrir cyfrif ohono fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Ar 31 Mawrth 2019 roedd holl asedau'r cynllun pensiwn yn werth £217.2m (2018: £217.3m) ac roedd hyn yn ddigon ar gyfer 95.7% (2018:98.5%) o werth y buddion a oedd wedi cronni i'r aelodau, ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd mewn enillion. Cyfrifwyd rhwymedigaethau'r cynllun gan ddefnyddio Dull Credyd Unedau Amcanestynedig.
Mae gwybodaeth bellach am y rhwymedigaeth a allai godi pan na fydd y cwmni'n cyflogi neb o fewn y cynllun hwn mwyach i'w gweld yn nodyn 18.

**Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl – nad yw'n cael ei archwilio**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

| | | | 2019 | | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| **Incwm** | | | | | |
| Ardoll | | | | | |
| Gwartheg | | | | 703,056 | 612,733 |
| Defaid | | | | 2,689,371 | 2,833,424 |
| Moch | | | | 37,410 | 37,925 |
| | | | | 3,429,837 | 3,484,082 |
| Gwasanaethau | | | | 48,123 | 41,419 |
| Gwasanaethau Llywodraeth Cymru | | | | 94,046 | - |
| Grant Allforio Llywodraeth Cymru | | | | 441,000 | 90,675 |
| Grantiau RDP Llywodraeth Cymru | | | | 259,992 | 55,358 |
| Hybu Marchnadoedd yr UE | | | | - | 453,848 |
| Llog a gafwyd | | | | 1,478 | 187 |
| | | | | 4,274,476 | 4,125,569 |
| **Gwariant Uniongyrchol** | | | | | |
| Allforio: | Sefydledig | | 671,795 | | 1,482,300 |
| | Yn datblygu | | 53,169 | | 104,473 |
| | Marchnadoedd Newydd | | 48,521 | | 51,647 |
| | Grantiau | | 442,214 | | 90,696 |
| Cartref: | Adwerthu | | 213,553 | | 138,909 |
| | Defnyddwyr | | 906,312 | | 666,162 |
| | Gwasanaethu bwyd | | 97,619 | | 70,107 |
| Datblygu Brandiau | | | 298,551 | | 290,834 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | | | 259,993 | | 55,341 |
| Gwybodaeth am y Farchnad | | | 246,558 | | 218,990 |
| Ymchwilio a Datblygu | | | 60,352 | | 76,380 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi | | 237,235 | | 105,009 |
| | | ________ | ________ | ________ |
| Cariwyd ymlaen | | 3,535,872 | 4,274,476 | 3,350,848 |

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r cyfrifon statudol.

**Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales**
**Cwmni Cyfyngedig drwy Warant**



**Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl – nad yw'n cael ei archwilio**
**Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019**

| | | **2019** | | **2018** |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Dygwyd ymlaen | | 3,535,872 | 4,274,476 | 3,350,848 |
| Costau corfforaethol | | | | |
| Costau Archwilio Allanol a Mewnol | 26,085 | | | 22,994 |
| Dyledion drwg (a adenillwyd)/dilëwyd | 8,755 | | | (8,511) |
| Costau casglu | 53,606 | | | 59,359 |
| Dibrisiad | 25,666 | | | 19,170 |
| Gwarged ar ailbrisio | - | | | (12,500) |
| Ffioedd a chostau'r Cyfarwyddwyr | 93,949 | | | 84,417 |
| Llogi offer | 8,477 | | | 10,407 |
| Yswiriant | 20,062 | | | 26,255 |
| Cymorth TG | 36,443 | | | 29,407 |
| Golau a gwres | 15,518 | | | 17,808 |
| Colled o waredu asedau | - | | | 736 |
| Argraffu, postio a deunydd ysgrifennu | 10,188 | | | 6,114 |
| Gwasanaethau proffesiynol | 48,952 | | | 60,866 |
| Trwsio a chynnal a chadw | 19,674 | | | 19,608 |
| Rhent ac ardrethi | 59,425 | | | 59,533 |
| Costau Staff | 201,289 | | | 201,521 |
| Mân dreuliau | 20,899 | | | 39,882 |
| Teleffon | 15,768 | | | 13,853 |
| Gorbenion a adenillwyd | (6,286) | | | (20,946) |
| | ________ | | | ________ |
| | | 658,470 | | 629,973 |
| | | ________ | | ________ |
| | | | 4,194,342 | 3,980,821 |
| | | | ________ | ________ |
| Incwm Uwchlaw Gwariant | | | 80,134 | 144,748 |
| | | | ======== | ======= |

| | | |
|---|---|---|
| Incwm | 4,274,476 | 4,125,569 |
| Gwariant | 4,194,342 | 3,980,821 |
| Incwm Uwchlaw Gwariant | 80,134 | 144,748 |

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r cyfrifon statudol.